## Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

**Dyddiad:** 26 Mehefin 2003
**Amser:** 09:00
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
**Teitl:** Blaenraglen waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn darparu amlinelliad o'r flaenraglen waith ar gyfer y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

### Argymhelliad

2. Gwahoddir aelodau i wneud sylwadau ar y flaenraglen waith ddrafft ac i gytuno ar flaenraglen derfynol.

### Cefndir

3. Mae'r sail statudol ar gyfer y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi ei nodi yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.  Mae'r rhannau perthnasol wedi eu dyfynnu yn Atodiad 1.  Yn Rheol Sefydlog 15 ceir manylion cylch gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor.

4. Yn fras, cylch gwaith y Pwyllgor yw sicrhau bod y Cynulliad yn ymdrin yn gydlynol strategol â materion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd a materion allanol.  Mae'n ofynol i'r Pwyllgor oruchwylio'r canlynol:

- perthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau ynghylch anghenion Cymru;
- trefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP a chydag adrannau llywodraeth y DU ar faterion Ewropeaidd;
- dulliau a gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd gan roi sylw arbennig i'r angen i gysylltu ag Aelodau Seneddol sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol.
- perthynas y Cynulliad â chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

### Blaenraglen waith ddrafft

6. Yn ei gyfarfod olaf ar 6 Mawrth, cytunodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol blaenorol ar restr o faterion yr oedd yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf fwrw ymlaen â hwy.  Mae'r rhestr wedi ei amgáu yn Atodiad 2, ac mae'r flaenraglen waith ddrafft trosodd wedi ei llunio ar sail cynnwys y rhestr honno.

| Yr Amserlen | Eitem |
|---|---|
| Haf 03 | • Blaenraglen waith y Pwyllgor<br>• Y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop<br>• Dyfodol y Gweithgor Ehangu<br>• Rhaglen Waith Flynyddol Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd<br>• Gorolwg o sefydliadau yr UE/rhyngwladol allweddol mae'r Cynullliad yn gysylltiedig â hwy<br>• Hybu Cymru yn Rhyngwladol ar Ddydd Gwyl Dewi<br>• Posibilrwydd o gyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar Ddyfodol y Cronfeydd Strwythurol |
| Hydref 03 | • Y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop - y diweddaraf<br>• Crynodeb o'r gweithgareddau yn ystod Llywyddiaeth Groeg<br>• Cyflwyniad ar flaenoriaethau Llywyddiaeth yr Eidal<br>• Pennu meini prawf ar gyfer asesu gwerth aelodaeth o'r gwahanol gyrff rhyngwladol a chyrff yr UE<br>• Asesu effeithiolrwydd y cydlynu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU ar faterion yr UE:<br>- rôl UKRep ac Ysgrifenyddiaeth Swyddfa'r Cabinet<br>- y concordat a datrys anghytundebau<br>• Diweddariad gan Aelodau Seneddol Ewrop<br>• Diweddariad gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau<br>• Posibilrwydd - canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Cronfeydd Strwythurol<br>• Posibilrwydd o gyfarfod ym Mrwsel |
| Gwanwyn 03 | • Rhaglen waith flynyddol y Comisiwn ar gyfer 2004<br>• Cyflwyniad ar flaenoriaethau Llywyddiaeth Iwerddon<br>• Crynodeb o'r gweithgareddau yn ystod Llywyddiaeth yr Eidal<br>• Asesu effeithiolrwydd y cydlynu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU ar faterion yr UE:<br>- rôl adrannau polisi Llywodraeth y Cynulliad<br>- cydlynu yn gyffredinol yn y Cynulliad<br>• Gwella mynediad i wybodaeth ar gynigion deddfwriaethol a pholisi yr UE<br>• Cyflwyniad gan Albert Bore, Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau<br>• Asesu llwyddiant y prosiect Brandio Cymru<br>• Adroddiad blynyddol a blaenraglen waith y Pwyllgor<br>• Cymharu gwaith a rôl y Pwyllgor â Phwyllgorau eraill tebyg yn y DU<br>• Ymdrin â Chyfarwyddebau - astudiaethau achos<br>• Y cyfnod cyn i'r gwledydd newydd ymuno â Undeb |

**Camau i'w Cymryd**

7. Gwahoddir aelodau i wneud sylwadau ar y flaenraglen waith ddrafft ac i gytuno ar raglen derfynol.

**Swyddog Cyswllt**
Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau

**Atodiad 1**

**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**CYFEIRIADAU YN Y RHEOLAU SEFYDLOG**

***Dyfyniad o Reol Sefydlog 6:***

6.5 Trefnir bod amser ar gael ym mhob cyfnod o 12 mis ar gyfer y categorïau canlynol o fusnes y Cynulliad:

(xiii) dadl ar faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd

***Rheol Sefydlog 8:***

Mae Rheol Sefydlog 8 yn cynnwys rheolau cyffredinol ar weithdrefnau'r pwyllgor.

***Rheol Sefydlog 15:***

**RHEOL SEFYDLOOG 15 - Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

**<u>Teitl a Chylch Gwaith</u>**

15.1 Bydd Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd ac Allanol, a fydd yn cadw llygad

(i) ar berthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau ynglyn ag anghenion Cymru;

(ii) ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglyn â materion Ewropeaidd;

(iii) ar ddulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan roi sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn benodol.

(iv) perthynas y Cynulliad â chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

15.2. Bydd y Pwyllgor yn monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru, ac yn sicrhau bod yna gysylltu digonol ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

15.3. Bydd y Pwyllgor yn osgoi dyblygu gwaith pwyllgorau pwnc, ond caiff dynnu sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol, ac os yw'r pwyllgor pwnc

perthnasol yn cytuno, caiff ystyried unrhyw fater sy'n dod o fewn paragraphau 15.1 neu 15.2 sydd fel arall yn gyfan gwbl o fewn cylch gwaith y pwyllgor pwnc.  Caiff y Pwyllgor asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc a chyflwyno adroddiad amdano pan fo rhaid.

**Aelodaeth**

15.4  Caiff Aelodau'r Pwyllgor eu hethol gan y Cynulliad gan ystyried pa mor ddymunol y byddai i bob pwyllgor pwnc gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor ac er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yr adlewyrchir cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad yn ei aelodaeth. Bydd y Cynulliad yn ethol un o'i Aelodau ar y Pwyllgor i gadeirio'r Pwyllgor, ond ni chaiff ei gadeirio gan Weinidog.  Gall Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y cadeirydd, cânt siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pan gynhelir y rheiny yn gyhoeddus, ond ni chânt bleidleisio.    Cyn unrhyw gyfarfod, caiff Aelodau o'r Cynulliad sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw, ond ni chânt bleidleisio.  Gall Aelodau hefyd ysgrifennu at y Cadeirydd i wneud cais i'w sylwadau ar unrhyw agwedd o waith y Pwyllgor gael eu rhoi gerbron y Pwyllgor i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf a bydd y cadeirydd yn trefnu i hynny ddigwydd.

**Adroddiadau**

15.5 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd.

**Atodiad 2**

## AWGRYMIADAU AM WEITHGAREDDAU AR GYFER Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL YN Y DYFODOL

| DARPARIAETHAU'R RHEOLAU SEFYDLOG | GWEITHGAREDDAU A ARGYMHELLIR |
|---|---|
| Perthynas â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd<br>Rh S 15.1(i) | 1. Cynnal cyfarfod ym Mrwsel a chyfarfod â chynrychiolwyr sefydliadau'r UE<br>2. Parhau â'r rhaglen o gyflwyniadau ar raglen waith Llywyddiaeth pob Cyngor<br>3. Asesiad o effeithiolrwydd bod yn rhan o Gynhadledd y Rhanbarthau sydd â Phwerau Deddfwriaethol, Cynhadledd y Rhanbarthau Arforol ac Ymylol, Cyngres yr Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol yn Ewrop ac ati |
| Trefniadau ar gyfer cysylltu ag UKREP a llywodraeth y Deyrnas Unedig<br>Rh S 15.1(ii) | 1. Cyfres o gyflwyniadau gan UKREP, Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd Swyddfa'r Cabinet a rhai o brif adrannau Whitehall ar eu rôl a'r ffordd maent yn gweithio gyda'r Cynulliad.  (Gellir cynnwys hyn yn y gwaith ar yr astudiaethau achos a ddisgrifir isod).<br>2. Ystyried rôl y Cynulliad yng nghyfarfodydd Cyngor Ewrop - dirprwyaethau a arweinir gan y Cynulliad yn benodol<br>3. Ystyried effeithiolrwydd y 'Concordat ar Gydlynu Materion Polisi yr Undeb Ewropeaidd'<br>4. Cymharu gwaith Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol â Phwyllgorau eraill tebyg yn y DU<br>5. Cymharu ymagwedd y DU at gydlynu polisïau â'r hyn a wneir mewn gwledydd eraill yn yr UE |

| DARPARIAETHAU'R RHEOLAU SEFYDLOG | GWEITHGAREDDAU A ARGYMHELLIR |
|---|---|
| Dulliau ar gyfer ystyried materion sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd<br>RhS 15.1(iii) | 1. Archwilio cyfres o astudiaethau achos i ddangos sut mae'r Cynulliad yn ymdrin â materion Ewropeaidd ar wahanol gamau yn y broses ddeddfwriaethol. Byddai hyn yn cynnwys ystyried enghreifftiau o:<br>- Drafod cynigion y Comisiwn (h.y. yn ystod y camau datblygu cynnar cyn paratoi'r ddeddfwriaeth ddrafft)<br>- Ystyried deddfwriaeth ddrafft yr UE pan fydd y Cynulliad yn gyfrifol am roi'r canlyniad terfynol ar waith<br>- Ystyried deddfwriaeth ddrafft yr UE pan fydd diddordeb gan y Cynulliad ond pan na fydd â chyfrifoldeb llawn dros roi'r canlyniad terfynol ar waith<br>- Rhoi deddfwriaeth yr UE ar waith - pan fydd pwer gan y Cynulliad i'w rhoi ar waith, a phan fydd yn rhannu'r pwer i'w rhoi ar waith<br>2. Ystyried sut y bydd y Cynulliad - gan gynnwys y pwyllgorau pwnc - yn gallu cyfrannu orau at y broses |
| Perthynas y Cynulliad â chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd<br>Rh S 15.1(iv) | 1. Casglu sylfaen o wybodaeth ar waith tramor y Cynulliad<br>2. Ystyried llwyddiant 'Brandio Cymru', Wythnos Cymru ym Mrwsel ac Efrog Newydd a phynciau tebyg eraill<br>3. Asesu gwerth cytundebau a wnaed â gwledydd a rhanbarthau eraill |
| Monitro effaith polisïau'r UE ar Gymru<br>Rh S 15.2 | 1. Ailedrych ar Raglen Waith Flynyddol y Comisiwn ar gyfer 2003 a nodi unrhyw feysydd yr hoffai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hwy<br>2. Ystyried datblygu ymagwedd gyffredin at ddadansoddiad o fanteision costau deddfwriaeth Ewropeaidd<br>3. Ystyried y llwyddiannau o ran rhoi deddfwriaeth yr UE ar waith - er enghraifft edrych ar dorri'r rheolau<br>4. Asesu effaith diwygio'r cronfeydd strwythurol ar Gymru<br>5. Ystyriaeth fanwl o'r argymhellion sy'n deillio o'r Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop<br>6. Parhau i ystyried effaith ehangu<br>7. Parhau i ystyried effaith yr Ewro |
| Cysylltu ag Aelodau Senedd Ewrop ac Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau<br>Rh S 15.2 | Parhau i dderbyn adroddiadau rheolaidd gan aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau a Senedd Ewrop - gweithio i sicrhau bod ASEau yn gallu dod i gyfarfodydd y Pwyllgor |

| DARPARIAETHAU'R RHEOLAU SEFYDLOG | GWEITHGAREDDAU A ARGYMHELLIR |
|---|---|
| Tynnu sylw Pwyllgorau Pwnc at faterion perthnasol<br>Rh S 15.3 | 1. Ystyried sut y gellir datblygu blaengynllun cywir ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig - gan gynnwys argymhellion, ymgynghori ar offerynnau drafft a rhoi deddfwriaeth ar waith<br>2. Defnyddio gwybodaeth o'r blaengynllun, rhaglen waith y Comisiwn ac ati i ddarparu gwybodaeth i'r pwyllgorau pwnc<br>3. Parhau i wahodd Cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc i gyflwyno'r diweddaraf ar y dimensiwn Ewropeaidd ar eu gwaith o dro i dro |
| Asesu effaith deddfwriaeth<br>Rh S 15.3 | 1. Ystyried sut y gellir datblygu blaengynllun cywir ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig - gan gynnwys argymhellion, ymgynghori ar offerynnau drafft a rhoi deddfwriaeth ar waith<br>2. Defnyddio gwybodaeth o'r blaengynllun, rhaglen waith y Comisiwn ac ati i nodi offerynau a fydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol |